# Dippy

18 Mai 2018

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Cais am wybodaeth**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 27 Ebrill, pan wnaethoch ofyn:

1. *A fydd 'Dippy' y Diplodocws yn dod i'r Senedd yn ystod ei daith o amgylch y DU?*
2. *Os felly, am ba hyd, a beth fydd y gost i'r Cynulliad?*
3. *Os na, a yw'r Cynulliad wedi talu unrhyw gostau mewn perthynas â hyn?*

Atebir eich cwestiynau isod.

1. Ni fydd 'Dippy' y Diplodocws yn dod i'r Senedd yn ystod ei daith ledled y DU, ond fe fydd yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd rhwng 19 Hydref 2019 a 26 Ionawr 2020.
2. Amherthnasol.
3. Cynhaliwyd digwyddiad yn yr Amgueddfa Hanes Naturiol i lansio 'Dippy' ar daith. Roedd dau aelod o Gomisiwn y Cynulliad yn bresennol yn y digwyddiad hwn. Yr unig gostau oedd costau teithio a llety, cyfanswm o £350.75. Tra yn Llundain, cawsant gyfle i ymweld â'u cymheiriaid yn San Steffan i drafod, ymhlith pethau eraill, y Suffragettes: 100 mlynedd o bleidleisiau i fenywod.

Ystyriwyd eich cais yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx Rhowch wybod imi os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymateb hwn. Os credwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Bae Caerdydd
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: MynediadAtWybodaeth@Cynulliad.cymru
Assembly-Accesstoinformation@assembly.wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch cais am wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno’n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Mae egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion ar gael ar ein gwefan yn http://www.assembly.wales/cy/help/contact-the-assembly/con-complaint/Pages/con-complaint-procedure.aspx. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i’r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â’r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF